



Eisteddfod Genedlaethol Cymru (llun: Aled Llywelyn)

Cyngor Celfyddydau Cymru

Adroddiad Blynyddol am y Gymraeg 2018/19

Awst 2019



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Ein hymrwymiad i'r Gymraeg.....	5
Cylch Gorchwyl	6
Rôl y Grŵp	6
Ystadegau allweddol.....	8
Gweithgarwch a ariennir	17
Arian y Loteri	17
Dysgu Creadigol trwy'r Celfyddydau	18
Portffolio Celfyddydol Cymru (PCC)	20
Y Cynllun Noson Allan	22
Iaith a chyflogaeth ym myd y celfyddydau	28
Caffael.....	33
Cwynion.....	34
Atodiad 1	35
Cydymffurfio â'n Safonau Cymraeg	35
Safonau Darparu Gwasanaethau	35
Safonau Llunio Polisi.....	36
Safonau Gweithredol	36
Cadw Cofnodion	38

Cyflwyniad

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus. Sefydlodd y Mesur hwn hefyd Gomisiynydd y Gymraeg yng Nghymru. Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am orfodi dyletswyddau cyfreithiol y Mesur drwy gyfres o Safonau.

Rhaid i gyrff cyhoeddus, fel Cyngor Celfyddydau Cymru, gyhoeddi dogfen bolisi sy'n egluro sut maent yn bwriadu cyflawni'r ymrwymiad hwn. Cyhoeddir ein [Polisi Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg](#) ar ein gwefan.

Rydyn ni'n cyhoeddi ein [Datganiad o Gydymffurfiaeth](#) hefyd. Mae hwn yn manylu ar y Safonau sy'n berthnasol i ni fel corff cyhoeddus. Rydyn ni'n cyhoeddi'r camau a gymerwyd i fodloni'r Safonau hyn [yma](#) hefyd, ac maent ynghlwm yn Atodiad 1 at ddibenion cyfeirio.

Y ddogfen hon yw Adroddiad Blynyddol Cyngor Celfyddydau Cymru am y Gymraeg ar gyfer 2018/19. Mae'n darparu gwybodaeth am ein perfformiad yn erbyn y nodau, yr uchelgeisiau a'r gofynion a bennir yn ein dogfen bolisi a'n Cynllun Gweithredu ar gyfer 2018/19.

Mae adroddiad diwedd blwyddyn llawn ar ein Cynllun Gweithredol 2018/19 yn ein [Hadroddiad Blynyddol a'n Datganiadau Ariannol](#)

Ein hymrwymiad i'r Gymraeg

Un o'r ffyrdd amlwg i ni ein mynegi ein hunain yw trwy'r geiriau a'r iaith a ddefnyddiwn. Cenedl ddwyieithog ydyn ni - yn gyfreithiol, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol, ac fel unigolion a chymunedau. Y Gymraeg yn anad dim sy'n gwneud Cymru'n unigryw. Mae'r iaith yn fodd o ddeall a mwynhau llenyddiaeth a diwylliant hynod gyfoethog. Mae'r Celfyddydau'n ffynnu ar hyn ac maent yn allweddol wrth gynnal swyddogaeth hanfodol yr iaith wrth galon bywyd Cymru.

Mae gan y Cyngor ymrwymiad diamwys i bwysigrwydd datblygu a hyrwyddo'r celfyddydau yn y Gymraeg, a byddwn ni'n amddiffyn yn gadarn hawl pobl i archwilio eu diwylliant a'u creadigrwydd eu hunain, drwy eu dewis iaith, boed yn ddefnyddiwr, yn gyfranogwr neu'n artist.

Beth fyddwn ni'n ei wneud

Byddwn ni'n darparu gwybodaeth hollol ddwyieithog yn unol â Safonau'r Gymraeg a'n Polisi Iaith

I helpu i fonitro cynnydd a llywio ein gwaith yn hyn o beth, sefydlwyd **Grŵp Monitro'r Gymraeg**. Dan gadeiryddiaeth Aelod o'r Cyngor, mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr staff o bob rhan o'n sefydliad. Mae'r Grŵp yn cyfarfod bob chwarter.

Cylch Gorchwyl

Pennwyd cylch gorchwyl Grŵp Monitro'r Gymraeg (y Grŵp) yn ei gyfarfod cyntaf ym Mai 2003. (Mae'r Cyngor yn adolygu'r cylch gorchwyl, ac yn ei ddiwygio os oes angen, yn flynyddol ym mis Mawrth.)

Rôl y Grŵp

1. Adolygu, monitro a chyfrannu at ddatblygu polisiau a gweithdrefnau sy'n galluogi'r Cyngor i fynd ar drywydd agenda blaengar i hyrwyddo ei wasanaeth dwyieithog fel y'i disgrifir yn ei gynllun Cymraeg, a chan gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
2. Helpu'r Cyngor a'i swyddogion i sicrhau bod ei weithgareddau yn y maes hwn yn gyson ag uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau Dyfodol Llywodraeth Cymru.
3. Helpu'r Cyngor a'i swyddogion i ymgorffori dwyieithrwydd yn agwedd arferol ar fuddsoddiad, prosesau a rhaglenni gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru
4. Cyfrannu at fonitro cydymffurfiaeth Cyngor Celfyddydau Cymru â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol perthnasol, gan gynnwys unrhyw ddyletswyddau cyffredinol a phenodol cysylltiedig, gan gynnwys monitro gweithrediad Cynllun Gweithredu'r Gymraeg.
5. Cynghori ar ddatblygiad, gweithrediad a monitro prosiectau datblygu penodol.
6. Cynnig arweiniad a chyngor i'w sefydliadau refeniw mewn perthynas â gofynion Safonau'r Gymraeg, ac i'w holl sefydliadau sy'n cael arian prosiect, ac i eraill sy'n dibynnu ar rwydwaith Cyngor Celfyddydau Cymru, ar sut i adlewyrchu natur ddwyieithog y Gymru gyfoes.
7. Bydd y grŵp yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r swyddogaethau hyn drwy fabwysiadu'r canlynol: Active oversight of the effectiveness of the Arts Council of Wales's activities in demonstrating a commitment to bilingualism as a fundamental governing principle and as an object in its
 - a. Goruchwyllo'n ymarferol effeithiolrwydd gweithgareddau Cyngor Celfyddydau Cymru wrth ddangos ymrwymiad i ddwyieithrwydd fel egwyddor lywodraethu sylfaenol ac fel nod yn ei Siarter Frenhinol
 - b. Monitro gweithrediad gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol (gan gynnwys Safonau'r Gymraeg, Cynllun y Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu a'r adolygiad o Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb)

- c. Cynnig arweiniad a chyngor ar swyddogaeth y cyfieithydd mewnol
- d. Delio â chwynion o natur ieithyddol
- e. Cynorthwyo defnydd o'r Gymraeg yn y Celfyddydau
- f. Darparu cyngor ac arweiniad ar faterion dwyieithrwydd er budd artistiaid a sefydliadau celfyddydol
- g. Cynghori ar fentrau sy'n cynorthwyo hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff Cyngor Celfyddydau Cymru
- h. Cyflwyno argymhellion i'r Uwch-dîm Arwain a'r Cyngor am unrhyw un o'r uchod.

Byddwn ni'n darparu gwybodaeth hollol ddwyieithog yn unol â Safonau'r Gymraeg a'n Polisi Iaith.

Ystadegau allweddol

Mae hi'n bwysig ein bod ni'n deall cystal ag y gallwn ni pa fath o faterion o ran y Gymraeg sy'n effeithio ar fywyd yn y Gymru gyfoes, a'u cwmpas.

Y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg

Census information reveals the following population trends.

	1991	2001	2011
Canran y boblogaeth sy'n medru'r Gymraeg	18.7%	20.8%	19.0%
Nifer y boblogaeth sy'n medru'r Gymraeg	19.0%	582,000	582,000

Ffynhonnell: Cyfrifiadau 1991, 2001 a 2011

Er i'r canran a'r nifer o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ostwng rhwng 2001 a 2011, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn uwch na'r hyn a gofnodwyd yn 1991 mewn gwirionedd.

Mae'r gwahaniaethau rhwng 2001 a 2011 yn amrywio yn ôl grŵp oedran.

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn achos y plant iau (3-4 oed), a chynnydd bach yn achos oedolion 20-44 oed, a gostyngiad ym mhob grŵp oedran arall.

	Plant 3-4 oed		Oedolion 20-44 oed	
	2001	2011	2001	2011
% y grŵp oedran sy'n medru'r Gymraeg	18.8%	23.3%	15.5%	15.6%

Ffynhonnell: Cyfrifiadau 2001 a 2011

Mynychu a chyfranogi yn y celfyddydau

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn annog pobl i fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau.

Bob blwyddyn, rydyn ni'n comisiynu gwaith ymchwil annibynnol - Omnibws Cymru - i asesu beth sy'n digwydd i gynulleidfaoedd a chyfranogwyr sy'n medru'r Gymraeg. Mae hyn yn rhoi darlun o'r patrymau mynychu a chyfranogi sydd ohoni yn seiliedig ar sampl o ryw 1,000 o bobl a ddewisir ar hap bob blwyddyn.

Omnibws yr Oedolion

Mae'r ffigurau ar gyfer y boblogaeth o oedolion fel a ganlyn:


% y siaradwyr Cymraeg sy'n mynychu neu'n cymryd rhan yn y celfyddydau unwaith neu ragor y flwyddyn 2012-2018

	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018
Mynychu	79%	83%	81%	81%	80%	91%	87%
Cyfranogi	46%	44%	47%	49%	50%	53%	45%

Ffynhonnell: Adroddiadau Omnibws Cymru 2012, 2013, 2014, 2015, 2016, 2017 a 2018.


- Mynychodd 86.9% o oedolion sy'n medru'r Gymraeg o leiaf un digwyddiad celfyddydol, unwaith neu ragor y flwyddyn.
- Yn dilyn cynnydd o 2.7 % yn y cyfnod blaenorol, gwelwyd gostyngiad o 7.6 pwynt canrannol yn lefelau cyfranogaeth siaradwyr Cymraeg ers 2017, gyda 45.1% yn cymryd rhan yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu ragor.

Data am y Gymraeg o adroddiad arolwg Omnibws 2018



Sail: Pob Oedolyn (2017:1,021 a 2018:1,002) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws 2017-2018

- Yn dilyn cynnydd o 11% yn 2017, yn 2018 gwelwyd gostyngiad o 3.7 pwynt canrannol yn y siaradwyr Cymraeg sy'n mynychu'r celfyddydau, i 86.9%. Mae hyn yn cymharu â dros dri chwarter o'r bobl ddi-Gymraeg a oedd wedi mynychu'r celfyddydau yn y naill flwyddyn a'r llall, gyda 84%.
- Mae'r bwlch rhwng siaradwyr Cymraeg a'r rhai di-Gymraeg wedi gostwng o 13.2 pwynt canrannol yn 2017 i 2.9 pwynt canrannol yn 2018. Yn 2017, gwelwyd cynnydd o 11.3% yn y bwlch yma.




Sail: Pob Oedolyn (2017:1,021 and 2018:1,002) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws 2017-2018

Cynyddodd y gyfran o bobl ddi-Gymraeg sy'n mynychu'r celfyddydau rhwng 2017 a 2018 i 84%. Mae cyfanswm y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng 3.7 pwynt canrannol, sy'n golygu taw ychydig dros 86% sy'n mynychu'r celfyddydau unwaith y flwyddyn neu ragor erbyn hyn. Mae dadansoddiad o'r rhai sy'n medru'r Gymraeg yn dangos y bu gostyngiad ar bob lefel o ruglder, ac eithrio'r rhai sy'n ystyried nad ydynt yn rhugl, lle gwelwyd cynnydd bach o 0.1 pwynt canrannol, gyda 89.3% yn mynychu'r celfyddydau unwaith y flwyddyn neu ragor.

Roedd y ffigurau hyn yn dangos cynnydd o 18.8 ar gyfer cyfanswm y siaradwyr Cymraeg, a chynnydd o 5.2% ar gyfer pobl ddi-Gymraeg yn 2017.


Cyfranogaeth yn y Celfyddydau



Sail: Pob Oedolyn (2017:1,021 and 2018:1,002) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws 2017-2018

Gwelwyd gostyngiad o 7.6 pwynt canrannol yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch celfyddydol, o 52.7% i 45.1%. Yr un pryd, mae'r ganran o bobl ddi-Gymraeg sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch celfyddydol unwaith y flwyddyn neu ragor wedi cynyddu 2.3 pwynt canrannol i 45.8%.

Mae'r bwlch mewn cyfranogaeth rhwng siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg wedi disgyn i 0.7% yn 2018, o gymharu â 9.2 pwynt canrannol yn 2017.



Sail: Pob Oedolyn (2017:1,021 and 2018:1,002) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws 2017-2018

Yn 2018, roedd y canran o siaradwyr Cymraeg rhugl a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch celfyddydol unwaith y flwyddyn neu ragor wedi codi 5.9 pwynt canrannol i 43.5%. Mae'r bwlch rhwng y canran o siaradwyr Cymraeg rhugl a'r siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch celfyddydol unwaith y flwyddyn neu ragor wedi culhau o 5.6 pwynt canrannol i 3 phwynt canrannol

Mae 46.5% o'r siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl yn cymryd rhan yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu ragor, ac mae hyn wedi disgyn 8.5 pwynt canrannol ers y flwyddyn flaenorol

Omnibws y Plant


Canran y plant (7-18 oed) sy'n medru'r Gymraeg sy'n mynychu neu'n cymryd rhan yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu ragor 2012-2018

	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018
Mynychu	85%	89%	91%	88%	86%	90%	94%
Cyfranogi	87%	88%	86%	90%	91%	90%	92%

Ffynhonnell: Adroddiad Omnibws Cymru Beaufort Research 2012, 2013, 2014, 2015, 2016, 2017 a 2018


- Yn 2018, mynychodd 94% o siaradwyr Cymraeg y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu ragor, mae hyn wedi cynyddu 4.0 pwynt canrannol ers y flwyddyn flaenorol.
- Cyfranogodd 91.8% o siaradwyr Cymraeg ran mewn gweithgareddau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu ragor yn 2018, mae hyn wedi codi 1.9 pwynt canrannol ers 2017.

Data am y Gymraeg o adroddiad arolwg Omnibws y Plant 2018




Sail: Pob plentyn 7-18 oed (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Omnibws y Plant 2016-2018

Yn 2018, roedd y rhai â rhyw lefel o allu yn y Gymraeg wedi mynychu'r celfyddydau ag amledd uwch na'r rhai di-Gymraeg, 94.0% o gymharu â 86.2%. Gwelwyd cynnydd yn achos y ddau grŵp, ond bu'r cynnydd ychydig bach yn fwy yn achos y siaradwyr Cymraeg rhugl, gyda chynnydd o 5.2 pwynt canrannol o gymharu ag 1.3 pwynt canrannol yn achos y rhai di-Gymraeg.




O ganolbwyntio'n fanylach ar y cysylltiad rhwng gallu yn y Gymraeg a mynychu'r celfyddydau, mae gan y rhai sy'n siarad rhywfaint o Gymraeg, ond nad ydynt yn rhugl, lefelau mynychu uwch o 94%, yn yr un modd â'r rhai rhugl â 94.9%. Fodd bynnag, mae lefelau mynychu'r grŵp di-Gymraeg yn is na'r cyfartaledd ar 89.3%.

Cyfranogaeth yn y Celfyddydau



Sail: Pob plentyn 7-18 oed (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Omnibws y Plant 2016-2018

- Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae gan y rhai sy'n medru'r Gymraeg gyfraddau ychydig bach uwch o gyfranogaeth yn y celfyddydau na'r rhai di-Gymraeg, gyda 91.8% o siaradwyr Cymraeg yn cyfraogi yn 2018 o gymharu ag 84.1% o'r rhai di-Gymraeg.
- Er bod gan siaradwyr Cymraeg gyfraddau ychydig bach yn uwch o ran cyfranogaeth yn y celfyddydau, mae lefel y gweithgarwch ymysg y grŵp yma wedi aros yn gymharol sefydlog ar lefel o ryw 90% dros y cyfnod o dair blynedd. Fodd bynnag, mae'r rhai di-Gymraeg wedi gweld gostyngiad mewn gweithgarwch o 1.8 pwynt canrannol ers y flwyddyn flaenorol, o 85.9% i 84.1%, gan wyrddroi'r cynnydd yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol. Mae hyn wedi ehangu'r bwch rhwng y ddau grŵp o 4 pwynt canrannol yn 2017 i 7.7 pwynt canrannol yn 2018.



Sail: Pob plentyn 7-18 oed (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Omnibws y Plant 2016-2018

Gwelwyd cynnydd o 4.5 pwynt canrannol yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch celfyddydol unwaith y flwyddyn neu ragor - o 87.4% yn 2017 i 91.9% yn 2018. Mae'r gyfran o'r rhai sy'n siarad Cymraeg ond nad ydynt yn rhugl wedi aros yn weddol gyson ar lefel o ryw 91% ers 2015.

Beth fyddwn ni'n ei wneud

Byddwn ni'n:

- a) parhau i fonitro effaith (gadarnhaol a negyddol) pob polisi, prosiect a chynnig ar y Gymraeg
- b) annog adborth gan siaradwyr Cymraeg a grwpiau Cymraeg
- c) datblygu ein potensial i gasglu gwybodaeth bellach trwy raglenni gwaith y dyfodol

Gweithgarwch a ariennir

Arian y Loteri

Er nad yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith, rydyn ni'n annog pob sefydliad a ariannwn i geisio gweithredu yn ôl ysbryd y Ddeddf. Yn eu ceisiadau am gyllid, rydyn ni'n gwahodd sefydliadau i drafod sut y byddant yn adlewyrchu natur ddwyieithog y gymuned y maent yn gweithredu ynddi a'r cynulleidfaoedd y maent yn eu targedu.

Yn 2018/19 ariannodd y Cyngor 437 o brosiectau gyda chymorth y Loteri, a oedd eto eleni yn is na blynyddoedd blaenorol, ac mae hyn yn adlewyrchu'r gostyngiad cyffredinol yn lefel cyllid y Loteri sydd ar gael i ni. Yn seiliedig ar y data a ddarparwyd yn y ceisiadau a gawsom, cyflawnwyd prosiectau yn yr ieithoedd canlynol:

	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Nifer y prosiectau loteri a ariannwyd	553	860	722	591	539	463	437
Saesneg	259	440	359	298	267	216	198
Cymraeg / Saesneg	249	361	302	242	211	205	194
Cymraeg	28	33	41	28	29	21	26
Amhenodol	16	26	16	20	27	12	5
Arall	1	0	4	3	5	9	14

Mae'r ffigurau uchod yn dangos dirywiad amrywiol yn nifer y prosiectau a gyflawnwyd trwy gyfrwng y Gymraeg, o uchafbwynt yn 2013/14. Nid yw'r gostyngiad nodedig yn nifer gyffredinol y prosiectau a ariannwyd gan y Loteri wedi effeithio ar nifer y prosiectau a gyflawnwyd yn Gymraeg yn 2018/19. Mae'r nifer uwch o geisiadau cyfrwng Cymraeg a ariannwyd yn 2018/19 yn adlewyrchu cynnydd o 1% ar lefelau 2017/18.

Byddwn yn parhau i adolygu tueddiadau dwyieithog. Cododd trafodaethau adeg Ymgynghoriad Loteri 2019 gwestiynau ynghylch dilysrwydd a phwrpas cyfateb gwaith dwyieithog o fewn cyd-destun cyflawni yn y Gymraeg. Mae'r cwestiwn am beth yw gweithgarwch 'dwyieithog', sy'n codi dro ar ôl tro, yn rhoi'r onws arnom ni i archwilio a diffinio rhagor ar y cyd-destun a'r disgwyliadau ar gyfer cyflawni yn y dyfodol.

Beth fyddwn ni'n ei wneud

Byddwn ni'n gweithredu ac yn gwireddu argymhellion ymgynghoriad y Loteri (Trawsnewid a Newid) mewn perthynas â gweithgarwch Cymraeg, gyda chylch gorchwyl estynedig i ddatblygu theatr cyfrwng Cymraeg yn ystod y cyfnod sydd i ddod.

Byddwn ni'n sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth allweddol sy'n cael ei sefydlu ar bob lefel o fewn y mentrau Ehangu Cysylltiad arfaethedig.

Byddwn ni'n cywreinio ac yn defnyddio'r data a gasglwn ar ystadegau Cymraeg mewn perthynas â sut y mae ein cyllid yn cael ei ddsbarthu.

a) Asesu effaith pob grant a ddyfernir ar y Gymraeg

b) Datblygu mentrau wedi eu targedu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau a glustnodir neu unrhyw feysydd lle nad oes cynrychiolaeth ddigonol

Dysgu Creadigol trwy'r Celfyddydau

	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Nifer y prosiectau Dysgu Creadigol a ariannwyd	109	295	544	576
Saesneg	95	234	393	378
Cymraeg / Saesneg	4	14	13	119
Cymraeg	10	47	136	79
Arall ¹			2	

¹ Mae 'arall' yn cynnwys ffrwd ddeuol, ddwyieithog a Saesneg â thipyn sylweddol o Gymraeg

Dadansoddiad o weithgarwch fesul rhaglen 2018/19

	Cydweithio Creadigol	Ewch i Weld	WW1	Ysgolion Creadigol Arweiniol
Nifer yr ysgolion a gysylltwyd	198	483	71	576
Cyfrwng Saesneg	111	275	48	378
Cyfrwng Cymraeg	47	144	18	119
Arall ²	40	64	5	79

² Mae data'r cyfrifiad yn cynnwys ffrwd ddeuol, ddwyieithog a Saesneg â thipyn sylweddol o Gymraeg

Adroddiad Data Cymraeg Dysgu Creadigol trwy'r Celfyddydau

Yn Ionawr 2019, roedd yr arolwg diweddaraf o ddata cyfrifiad yr ysgolion yn dangos bod yna gyfanswm o: 1,499 o ysgolion a gynhelir gan ALL yng Nghymru.

Roedd yna 432 o Ysgolion Cynradd Cymraeg, 9 Ysgol Ganol Cymraeg a 55 o Ysgolion Uwchradd Cymraeg - sef cyfanswm o 496 o ysgolion Cymraeg. Sef ychydig yn llai na thraean yr ysgolion.

Profi'r Celfyddydau

- Chwaraeodd 208 o'r 483 ysgol Gymraeg (43%) ran yn Ewch i Weld
- Cafodd 87 o'r 212 ysgol Gymraeg (41%) Grant Cydweithio Creadigol
- Cysylltwyd 122 o ysgolion Cymraeg mewn gweithgareddau Ewch i Weld cyfrwng Saesneg
- Cysylltwyd 13 o ysgolion Cymraeg mewn gweithgareddau Saesneg trwy Cydweithio Creadigol
- Mynychwyd 162 (23%) o ddigwyddiadau Cymraeg neu ddwyieithog yn rhan o'r cynllun Ewch i Weld
- Cyflawnwyd 62 o'r 96 (65%) prosiect Cydweithio Creadigol yn ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg

Ysgolion Creadigol Arweiniol

Ym Mawrth 2019, cyfanswm nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yw 576. Mae 119 o'r rhain yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, a 378 yn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae'r gweddill yn ysgolion ffrwd ddeuol, ddwyieithog neu Saesneg â thipyn sylweddol o Gymraeg. Mae hyn gyfwerth â 21% o nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg (119 o 576).

Asiantau Creadigol

Ar hyn o bryd, mae yna 233 o Asiantau Creadigol yn gweithio gydag Ysgolion Creadigol Arweiniol, ac mae cyfanswm o 80 o'r Asiantau Creadigol ar draws y cynllun sy'n medru'r Gymraeg.

Portffolio Celfyddydol Cymru (PCC)

Mae Portffolio Celfyddydol Cymru (PCC) yn cynnwys y sefydliadau hynny sy'n cael cyllid grant rheolaidd gan Gyngor y Celfyddydau, sy'n cael ei ddyfarnu'n flynyddol, i ariannu eu rhaglen weithgarwch ar gyfer y flwyddyn o dan sylw.

Mae ein Portffolio'n amrywio o gwmnïau ag enw rhyngwladol, i eraill sy'n gweithio ar raddfa lai, sy'n aml yn dewis gweithio gyda chymunedau mwy lleol. Mae disgwyl i sefydliadau mwy fod â'u Cynlluniau Iaith eu hunain a bydd gofyn iddynt fabwysiadu'r Safonau yn eu cyfanrwydd. Mae ein holl Gwmnïau Cenedlaethol wedi cyhoeddi Polisi Iaith.

Un o'r blaenoriaethau allweddol yn ein Cynllun Corfforaethol a'n Cynllun Gweithredol cyfredol yw cydraddoldeb ac ehangu ymgysylltiad, gan ddod â gweithgarwch celfyddydol o safon uchel o fewn cyrraedd haws i fwy o bobl ar draws Cymru. Felly mae ein Portffolio'n darparu'r 'pinnau hanfodol bwysig ar y map' sy'n darparu mynediad lleol at y celfyddydau - y pwyntiau sefydlog hynny yn eu milltir sgwâr sy'n darparu rhaglen o weithgarwch trwy gydol y flwyddyn.

O ystyried bod y sefydliadau hyn yn bartneriaid mor bwysig wrth gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru, rydyn ni'n disgwyl iddynt gofleidio ysbryd yr ymrwymadau a wnawn yn ein Polisi Iaith. Diffinnir ein disgwyliadau yn y cytundebau ariannu sydd gennym gyda nhw.

Rydyn ni'n adolygu perfformiad ein Portffolio yn flynyddol. Mae rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud, ac mae lefelau ymgysylltiad â'r Gymraeg yn amrywio.

Gwelwyd rhywfaint o welliant o ran nifer y sefydliadau sydd wedi dod yn agosach at gyflawni ein disgwyliadau. Mae rhai sefydliadau yn dal i gael eu disgrifio fel modelau o arfer dda yn nhermau cyfathrebu dwyieithog (gwefannau, marchnata, rhaglenni) a chynyddu darpariaeth eu rhaglenni. Yng Nghytundebau Ariannu 2018/19, mae gweithredu gwefan ddwyieithog yn ofyniad craidd i holl aelodau'r Portffolio. Cyflawnir archwiliad o wefannau'r Portffolio'n flynyddol.

Mae gennym ddiddordeb yng ngraddfa'r gweithgarwch cyfrwng Cymraeg y mae sefydliadau'r Portffolio yn ei hyrwyddo ac yn ei chyflawni. Mae'r ystadegau canlynol yn edrych ar lefelau mynychu a chyfranogi.

Mynychiadau Cymraeg

	2017/18	2018/19	% Newid	2017/18	2018/19	% Newid
	Digwyddiadau	Digwyddiadau	Digwyddiadau	Mynychiadau	Mynychiadau	Mynychiadau
Dangosiadau Ffilm	36	95	163.9	2,772	6,212	124.1
Perfformiadau gan Gwmnïau Teithiol	530	517	-2.5	49,914	45,114	-9.6
Perfformiadau mewn lleoliadau cyflwyno	438	527	20.3	57,352	73,136	27.5
Cyfansymiau	1,004	1139	13.4	110,038	124,462	13.1

Ffynhonnell: Arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru Sail: 66 sefydliad yn 2017/18 a 67 sefydliad yn 2018/19

Cyfranogaeth cyfrwng Cymraeg

	2017/18	2018/19	% Newid	2017/18	2018/19	% Newid
	Sesiynau	Sesiynau	Sesiynau	Mynychiadau	Mynychiadau	Mynychiadau
Plant a Phobl Ifanc	2,982	7,809	161.9	85,213	78,300	-8.1
Cyffredinol	3,389	2,192	-35.3	37,890	24,960	-34.1
Cyfansymiau	6,371	10,001	57.0	123,103	103,260	-16.1

Ffynhonnell: Arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru Sail: 66 sefydliad yn 2017/18 a 67 sefydliad yn 2018/19

Beth fyddwn ni'n ei wneud

We will continue to ask our APW clients to increase the number of Welsh language targeted events and participatory activities. We will monitor and review progress against individual Welsh Language Development plans and through the monitoring of future Survey returns.

We will provide further support to organisations around reporting and recording Welsh Language activity, which will be reviewed and monitored annually.

We will support a process of networking and sector collaboration aimed at enhancing understanding and opportunities between the producing and presenting sectors.

We will develop, pilot and launch a bilingualism promotion pack for the arts sector in Wales in cooperation with the Welsh Language Commissioner's Office.

Y Cynllun Noson Allan - Ffigurau Cymraeg

Noson Allan yw ein cynllun teithio cymunedol ar raddfa fechan. Mae'r cynllun yn gweithio gyda chymunedau a hyrwyddwyr lleol i lwyfannu perfformiadau mewn lleoliadau na fyddai'n gallu cyrchu darpariaeth gelfyddydol o safon uchel yn rhwydd fel arall.

Mae'r ffigurau cyffredinol ar gyfer Noson Allan yn debyg iawn i rai'r llynedd yn nhermau niferoedd ac yn nhermau'r rhai a gyflawnwyd yn y Gymraeg, sydd wedi cynyddu i 27.8% yn 2018/19, o 25% yn 2017/18.

	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Nifer y perfformiadau Noson Allan	574	580	574	533	521	535	513	511	514
Nifer yn y Gymraeg	142	113	140	140	147	160	126	140	143
% y cynyrchiadau Cymraeg	24.7%	19.5%	24.4%	26.3%	28.2%	30%	25%	27.4%	27.8
Perfformiadau Dwyieithog						41 (8%)	48 (9%)	50 (9.8%)	48 (9.3%)

Yn 2018/19, cafodd 15 o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru berfformiad Noson Allan trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r mwyafrif llethol o sioeau cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu bwcio yn y gogledd. Gwynedd, Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Phowys sydd i gyfrif am 78.4% o'r cyfanswm sy'n cael eu bwcio. Mae Ceredigion wedi cofrestru ar gyfer Noson Allan erbyn hyn, er nad oeddent wedi ymrwymo i'r cynllun o'r blaen.

Sioeau Noson Allan cyfrwng Cymraeg a drefnwyd yn ôl ardal awdurdod lleol

	2015/16	2015/16	2016/17	2016/17	2017/18	2017/18	2018/19
	nifer	%	nifer	%	nifer	%	nifer
Ynys Môn	21	13.1	15	11.9	12	8.6	19
Blaenau Gwent	0	0	0	0	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	1	0.6	1	0.79	0	0	0
Caerffili	0	0	0	0	0	0	0
Caerdydd	3	1.9	2	1.59	0	0	0
Sir Gaerfyrddin	18	11.3	8	6.35	7	5	4
Ceredigion	1	0.624	5	3.97	9	6	5
Conwy	8	5	3	2.38	7	5	8
Sir Ddinbych	12	7.5	13	10.32	13	9.3	19
Sir y Fflint	1	0.625	0	0	2	1.43	2
Gwynedd	68	42.5	49	38.89	50	35.7	57
Merthyr	3	1.875	1	0.79	1	0.7	1
Sir Fynwy	0	0	0	0	3	2.1	0

Castell-nedd	1	0.625	2	1.59	1	0.7	0
Casnewydd	0	0	0	0	1	0.7	1
Sir Benfro	3	1.875	1	0.79	4	2.86	1
Powys	6	3.75	11	8.73	18	12.86	9
Rhondda	6	3.75	4	3.17	3	2.14	3
Abertawe	2	1.25	2	1.59	3	2.14	1
Torfaen	0	0	0	0	0	0	0
Bro Morgannwg	2	1.25	3	2.38	2	1.43	1
Wrecsam	4	2.5	6	4.76	4	2.86	12
	160		126		140		143

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cerddoriaeth yw'r gelfyddyd fwyaf poblogaidd i'w bwcio - er y gallai hyn fod oherwydd yr ystod ehangach o lawer o gynnyrch sydd ar gael.

Mae drama'n dal i fod yn boblogaidd ar lefel o 25%, sy'n cynyddu 27% wrth gynnwys drama pobl ifanc.

Celfyddyd	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
	% Cymraeg	% Cymraeg	% Cymraeg	% Cymraeg	% Cymraeg
Ceilidh -Twmpath	0	6.9	0.79	0	0.7
Syrzas	8.4	0.6	0	0	0
Comedi	4.5	8.6	7.14	5	0.7
Dance	0	0	0	1.43	0
Dawns	20.1	13.2	19.04	25	20.289
Cerddoriaeth Glasurol	3.4	0.6	2.38	0	2.09
Cerddoriaeth Werin / Geltaidd	21.2	29.9	21.43	25	27.27
Cerddoriaeth Jazz	0	0.6	0.79	0	0
Cerddoriaeth Caneuon Poblogaidd	12.3	2.3	16.67	12.85	9.09
Cerddoriaeth Roc/Pop	5.6	2.9	4.76	7.85	10.49
Cerddoriaeth Band Pres	0	0.6	0	0	0
Cerddoriaeth Y Byd	0.6	1.2	1.59	0.7	0.7
Opera	1.1	0.6	0	0.7	0
Pypedwaith	0	3.4	0	1.43	0
Storia	3.4	5.2	11.90	5.71	10.46
Theatr i Bobl Ifanc	2.8	17.8	5.56	2.14	8.39

Amrywiaeth	0	5.8	7.14	5.71	9.79
Theatr Weledol neu Gorfforol	0	0	0.79	1.43	0

Beth fyddwn ni'n ei wneud

Byddwn ni'n parhau i ofyn i'n cleientiaid Portffolio gynyddu nifer y digwyddiadau a dargedir a'r gweithgareddau cyfranogol cyfrwng Cymraeg. Byddwn ni'n monitro ac yn adolygu cynnydd yn erbyn cynlluniau Datblygu Cymraeg unigol a thrwy fonitro ffurflenni Arolwg yn y dyfodol.

Byddwn ni'n darparu cymorth pellach ar gyfer sefydliadau mewn perthynas ag adrodd ar, a chofnodi gweithgarwch cyfrwng Cymraeg, a gaiff ei adolygu a'i fonitro'n flynyddol.


Byddwn ni'n cynorthwyo proses o rwydweithio a chydweithio sectoraidd â'r nod o gyfoethogi dealltwriaeth a chyfleoedd rhwng y sectorau cynhyrchu a chyflwyno.



Iaith a chyflogaeth ym myd y celfyddydau



Sgiliau Cymraeg staff Cyngor Celfyddydau Cymru

Ar 31 Mawrth 2019 roeddem yn cyflogi 86 o bobl (a oedd yn cynnwys 15 o weithwyr ar gcontractau tymor penodol). Mae hyn yn cyfateb â 79.7 o weithwyr cyfateb ag amser llawn (yn 2017/18 roedd 78 cyfateb ag amser llawn).

O'r 86, cofnododd 51 bod ganddynt sgiliau Cymraeg ar lefelau canolradd (neu'n uwch). Mae hyn yn cyfateb â 59.3% o'r staff. Dangosir canlyniadau llawn yr hunanasesiadau isod. Bydd y rhain yn parhau i weithredu fel meincnod ar gyfer asesiadau'r dyfodol. Ni chafwyd ymateb i'r arolwg gan 7 aelod o staff (roedd 3 yn absennol o'r gwaith adeg cyflawni'r arolwg).








Er mwyn sicrhau ein bod ni'n ymgysylltu'n llwyr â Safonau'r Gymraeg, cynigir cyrsiau dysgu Cymraeg eto o fewn y Cynllun Dysgu a Datblygu yn 2019/20. Mae'r cynllun hwn yn parhau i gael ei ddatblygu a'i fonitro, ac mae'n gweithio i gasglu manylion o Arfarniadau a Chynlluniau Gwaith staff.

Yn ogystal, rhoddir ystyriaeth ofalus wrth arfarnu Disgrifiadau Swyddi ac wrth nodi bod y Gymraeg yn Hanfodol/Dymunol yn y disgrifiadau hynny er mwyn sicrhau bod digon o gynrychiolaeth Gymraeg ar draws adrannau a graddau.

Mae'r siart isod yn dangos bod nifer y staff sy'n medru'r Gymraeg (i safon ganolradd ac uwch) wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd 2016/17 i 2017/18, ond ei bod wedi disgyn eto yn 2018/19. Rydym yn parhau i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl yr angen. Byddwn yn parhau i gadw llygad barcud ar y tueddiadau amrywiol, a byddwn yn parhau i asesu ymgyrchoedd recriwtio yn y dyfodol er mwyn cadw cydbwysedd priodol.

	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Staff Cymraeg fel % o'r cyfanswm	66	67.25	63.75	57.3	56.3	51.2	47	40.42	52	49

Hyfedredd fesul Graddfa Swyddi



Ffynhonnell: Cascade

Beth fyddwn ni'n ei wneud

- Pob hysbyseb swydd yn datgan y gellir cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg ac na chânt eu trin yn llai ffafriol na'r Saesneg
- Pob ffurflen gais yn caniatáu i'r unigolyn ddewis cael cyfweiliad naill ai yn Gymraeg neu Saesneg, a bod modd defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd os yw'n briodol
- Y broses ymsefydlu'n cael ei diwygio i gynnwys ymwybyddiaeth o ddiwylliant a hanes Cymru, Safonau'r Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle
- Gennym allu priodol yn y Gymraeg ar draws ein staff a'n graddau
- Hyfforddiant ar gael i ddysgwyr Cymraeg a'r rhai sydd am wella eu Cymraeg

Sgiliau Cymraeg ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru

Cyflogaeth	2017/18	2018/19	% Newid
Cyfanswm Nifer y Gweithwyr gan gynnwys Gwirfoddolwyr	4,577	4,797	4.8
Cyfanswm Nifer y Gweithwyr heb gynnwys Gwirfoddolwyr	3,198	3,527	10.3

Siaradwyr Cymraeg	2017/18	2018/19	% Newid
Cyfanswm nifer y Gweithwyr sy'n Medru'r Gymraeg	968	1,042	7.6

Ffynhonnell: Arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru Sail: 66 sefydliad yn 2017/18 a 67 sefydliad yn 2018/19

Byrddau Rheoli	2017/18	2018/19	% Newid
Cyfanswm nifer yr aelodau o'r Byrddau Rheoli	662	661	-0.2

Siaradwyr Cymraeg	2017/18	2018/19	% Newid
Cyfanswm nifer y siaradwyr Cymraeg ar y Byrddau Rheoli	221	238	7.7

Ffynhonnell: Arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru Sail: 66 sefydliad yn 2017/18 a 67 sefydliad yn 2018/19

Beth fyddwn ni'n ei wneud

We will continue to monitor and review APW progress around Welsh language targets for staff and Boards identified within individual action plans, identifying barriers and supporting development where possible.

Caffael

Mae'r holl Wahoddiadau i Dendro a gyhoeddwn yn annog ymatebwyr i ymateb yn iaith eu dewis, a bydd pob gohebiaeth wedyn yn iaith dewis yr ymatebwyr. Caiff pawb a wahoddir am gyfweliad yn sgil ymarfer tendro'r dewis i gynnal eu cyfarfod yn Gymraeg, gan ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os oes angen.

Cwynion

Yn rhan o'n hymrwymiad i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, yn fewnol ac yn allanol, rydyn ni'n recordio ac yn monitro unrhyw gwynion a gawn mewn perthynas â'r Gymraeg. Gall cwynion fod amdanom ni'n uniongyrchol, neu am sefydliadau neu weithgareddau rydym yn eu hariannu.

Yn 2018/19, cawsom gyfanswm o 2 gŵyn. Roedd y naill yn ymwneud â gweithgareddau sefydliadau rydym yn eu hariannu, a'r llall yn ymwneud â gwall gweinyddol mewn perthynas â chais a gyflwynwyd i ni am gyllid. Cafodd y ddwy eu datrys yn foddhaol.

Atodiad 1

Cydymffurfio â'n Safonau Cymraeg

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio sut mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a bennwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r safonau'n pennu nifer o ffyrdd y mae angen i ni ddarparu a hyrwyddo gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a hwyluso a hyrwyddo defnydd o'r iaith trwy ein rôl fel prif gorff datblygu'r celfyddydau yng Nghymru, ac yn y gweithle.

Mae Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i ni'n ymrannu'n bedwar categori:

- Darparu Gwasanaethau
- Llunio Polisi
- Gweithredol
- Cadw Cofnodion

Isod disgrifir y camau rydym wedi eu cymryd i gydymffurfio â gofynion pob maes, fel y'u nodir yn ein Hysbysiad Cydymffurfio. Ceir rhagor o fanylion yn ein Polisi Hyrwyddo a Hwyluso'r Gymraeg

Safonau Darparu Gwasanaethau

Crëwyd cronfa ddata ganolog i gofnodi dewis iaith unigolion

Mae'r holl staff yn gwybod sut i ymateb i ohebiaeth (llythyrau a negeseuon e-bost), ateb y ffôn, trefnu a chynnal cyfarfodydd, a chyfarch ymwelwyr

Mae'r holl dudalennau gwe a llythyrau templed wedi cael eu diweddarau i gydymffurfio â'r Safonau

Rydyn ni wedi cyflwyno system ffôn sy'n caniatáu i'r galwr nodi eu dewis iaith Our answer machine message is bilingual

Mae'r neges ar ein peiriant ateb yn ddwyieithog

- Mae pob aelod o staff yn ateb y ffôn â chyfarchiad dwyieithog a lle bo llinellau uniongyrchol yn cael eu deialu, maent yn trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n medru'r Gymraeg os dyna yw dewis iaith y galwr ac na allant ddarparu'r gwasanaeth eu hunai

- Mae pob dogfen, cyflwyniad ac eitem newyddion, gan gynnwys newyddlenni a hysbysiadau trwy'r cyfryngau cymdeithasol, a gynhrychir at ddefnydd y cyhoedd a defnydd allanol yn ddwyieithog, ac maent yn cael eu cyhoeddi'r un pryd
- Darperir gwasanaethau cyfieithu ar y pryd fel y bo'n briodol ar gyfer cyfarfodydd rhwng staff a phobl allanol
- Mae pob arwydd, hysbysiad cyhoeddus a hysbyseb yn ddwyieithog
- Mae ein gwefan yn ddwyieithog
- Mae pob tendr am gontract yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog a gwahoddir ymatebion yn iaith eu dewis
- Rydyn ni'n ymateb i dendrau sy'n dod i law yn Gymraeg yn Gymraeg ac yn cynnal unrhyw gyfweiliadau yn sgil hynny gyda chymorth cyfieithydd ar y pryd lle bo hynny'n briodol.

Safonau Llunio Polisi

- Mae'r holl staff yn ymwybodol o ofynion y Safonau Llunio Polisi
- Rydyn ni'n ystyried effaith unrhyw bolisi newydd (neu ddiwygiad i bolisi) ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
- Wrth gomisiynu gwaith ymchwil a fwriedir i gynorthwyo llunio polisi, byddwn ni'n sicrhau bod y gwaith ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi fel nad yw'n cael effaith negyddol ar y Gymraeg

Safonau Gweithredol

- Rydyn ni wedi llunio polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol er mwyn hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith
- Rydyn ni wedi cyflwyno gweithdrefn AD lle rydym ni'n gofyn i bob aelod o staff a ydynt am gael eu contract cyflogaeth yn y Gymraeg
- Mae'r holl staff yn gallu dewis a ydyn nhw am gael unrhyw ohebiaeth sy'n ymwneud â'u cyflogaeth unigol, eu habsenoldeb o'r gwaith, gwerthuso eu swydd neu eu hanghenion hyfforddiant, yn y Gymraeg

- Mae'r holl bolisiâu'n cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog a'r un pryd â'i gilydd
- Diwygiwyd disgrifiadau swyddi er mwyn sicrhau bod o leiaf 1 siaradwr Cymraeg yn y tîm AD
- Mae'r holl staff wedi cael gwybod bod modd iddynt gwyno yn y Gymraeg a bod ganddynt yr hawl i ymateb i gwynion amdanynt yn y Gymraeg
- Diweddarwyd polisiâu i adlewyrchu'r Safonau
- Mae ein meddalwedd cyfrifiadurol, gan gynnwys meddalwedd ADM, yn cynnig opsiynau Cymraeg i staff, lle bo meddalwedd o'r fath ar gael
- Mae sgiliau Cymraeg ein holl staff yn cael eu hasesu'n flynyddol trwy hunanasesiad
- Rydyn ni wedi darparu cyfleoedd i weithwyr gael hyfforddiant Cymraeg yn ystod oriau gwaith
- Darperir gwybodaeth i bob aelod newydd o staff i godi ymwybyddiaeth am y Gymraeg yn rhan o'u hyfforddiant cyflwyno
- Darparwyd geiriad a logo priodol ar gyfer llofnod e-bost staff er mwyn dangos eu bod yn rhugl yn y Gymraeg neu'n ddysgwyr
- Mae sgiliau Cymraeg yn cael eu hasesu fesul achos ar gyfer swyddi newydd neu swyddi gwag
- Mae swyddi'n cael eu hysbysebu'n ddwyieithog ac maent yn datgan pa sgiliau iaith sydd eu hangen
- Mae hysbysebion yn datgan ein bod ni'n croesawu ceisiadau yn Gymraeg
- Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â recriwtio'n cael ei chyhoeddi'n ddwyieithog
- Mae lle ar ffurflenni cais i unigolion nodi eu bod am ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cyfweiliad, ac mae'n nodi y darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os yw hynny'n briodol
- Mae pob arwydd yn Gymraeg

Cadw Cofnodion

- Rydyn ni'n cadw cofnod o'r cwynion a gawn am ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg
- Rydyn ni'n cadw cofnod o'r camau a gymerwyd i gydymffurfio â'r Safonau Llundain Polisi
- Rydyn ni'n cadw cofnod o sgiliau iaith ein holl staff yn y Gymraeg ac yn cadw'r hunanasesiadau
- Rydyn ni'n cadw cofnod o'r asesiadau a gyflawnwn i fesur sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi newydd neu wag
- Rydyn ni'n cadw cofnod o sut y categoriwyd pob swydd newydd neu wag mewn perthynas â'r angen am sgiliau Cymraeg